## Hysbysiad Preifatrwydd Data

Mae Camargue Group Limited yn cefnogi National Grid â'i broses ymgynghori. Mae Camargue Group Limited ("ni" / "ein") wedi ymrwymo i sicrhau preifatrwydd eich gwybodaeth bersonol. Yn yr hysbysiad hwn, rydym yn egluro sut rydym yn dal, yn prosesu, ac yn cadw eich data personol.

### Sut rydym yn defnyddio'ch data personol

Gallwn brosesu gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni. Gall y data hyn gynnwys y manylion isod;

- Eich enw;
- Eich cyfeiriad;
- Eich rhif ffôn;
- Eich cyfeiriad ebost;
- Eich cyflogwr neu unrhyw grŵp y mae gennych awdurdod i ymateb ar ei ran; ac
- Eich adborth mewn ymateb i ymgynghoriad National Grid;
- Eich cyfeiriad IP (ar lein yn unig).

Cesglir cyfeiriadau IP yn awtomatig os cysylltwch ß ni ar lein. Ar wahân i hynny, dim ond y wybodaeth rydych chi'n dewis ei rhoi i ni y byddwn yn ei chasglu. Byddwn yn defnyddio'ch data personol at y dibenion isod:

- Sicrhau bod unrhyw gwestiynau a godwch yn ystod yr ymgynghoriad neu unrhyw adborth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cael eu cofnodi'n gywir a'u dadansoddi.
- Adrodd ar ein hymgynghoriad, gan nodi pa faterion a godwyd a sut rydym wedi ymateb i'r adborth hwnnw. (Sylwch: Bydd y wybodaeth yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei chydgasglu ac ni fydd modd adnabod unigolion penodol).
- Personoli'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r unigolion y mae angen i ni gysylltu â nhw wrth ymgynghori neu gyfathrebu yn y dyfodol.
- Y sail gyfreithiol dros brosesu'r data hyn yw ei fod yn angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys, sef er mwyn sicrhau bod y prosesau ymgynghori, dadansoddi, ac adrodd yn gywir ac yn gynhwysfawr.
- Yn ogystal ag at y dibenion penodol y cawn brosesu'ch data ar eu cyfer fel y nodir uchod, cawn brosesu unrhyw ran o'ch data personol hefyd os yw'n angenrheidiol gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

### Rhoi eich data personol i eraill

Gallwn roi eich data personol i'r derbynwyr a ganlyn:

- National Grid, sef y cwmni yr ydym yn casglu'ch adborth ar ei ran er mwyn dadansoddi'r ymatebion a ddaw i law ac adrodd arnynt.
- Darparwyr gwasanaethau trydydd parti a chynghorwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i National Grid mewn perthynas â'r Ymgynghoriad.
- Ein hyswirwyr / cynghorwyr proffesiynol. Gallwn ddatgelu'ch data personol i'n hyswirwyr a/neu ein cynghorwyr proffesiynol i'r graddau y mae hynny'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion cael a chynnal polisïau yswiriant, rheoli risgiau, cael cyngor proffesiynol a rheoli anghydfodau cyfreithiol.

### Cadw a dileu data personol

Ni fydd y data personol yr ydym yn ei brosesu at unrhyw ddiben yn cael ei gadw am fwy o amser nag y mae ei angen at y diben hwnnw.

Oni bai ein bod yn cysylltu â chi ac yn cael eich caniatâd i ni gadw'ch data personol am gyfnod hirach, byddwn yn dileu'ch data personol cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl canlyniad y broses ymgynghori.

Gallwn gadw'ch data personol os bydd angen i ni ei gadw er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

### Eich hawliau

Dyma'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol o dan y gyfraith diogelu data:

- Yr hawl i gael mynediad ati;
- Yr hawl i gywiro;
- Yr hawl i ddileu;
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu;
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu;
- Yr hawl i gludadwyedd data; ac
- Yr hawl i gwyno wrth awdurdod goruchwylio.

Cewch arfer un neu fwy o'ch hawliau mewn perthynas â'ch data personol trwy ysgrifennu atom gan ddefnyddio'r manylion isod.

### Ein manylion

Rydym wedi ein cofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cofrestru 3954008, ac mae ein swyddfa gofrestredig yn Eagle Tower, Montpellier Drive, Cheltenham GL50 1TA.

Gallwch gysylltu â ni:

- Gan ddefnyddio'r ffurflen adborth ar ein gwefan
- Trwy'r post, gan ddefnyddio'r cyfeiriad postio: **FREEPOST NG SUBSTATION**
- Dros y ffôn, gan ddefnyddio'r rhif: **0800 915 3596** a gadael neges llais
- Trwy'r ebost, gan ddefnyddio'r cyfeiriad ebost: **Bodelwyddan@nationalgrid.com**